

AWEL AMAN TAWE (AAT)

Swyddog Datblygu

Disgrifiad Swydd



Mae Awel Aman Tawe yn elusen gofrestredig sy'n datblygu rhaglen o waith i gefnogi adfywio carbon isel. Ariennir y swydd hon trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae AAT yn gweithio ar nifer o brosiectau yn cynnwys effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, adfywio, trafndiaeth gynaliadwy, celfyddydau cymunedol a rhaglenni addysgol. Mae wedi datblygu dau gwmni cydweithredol ac mae'n darparu rheolaeth/cymorth gweinyddol i'r ddau:

- www.awel.coop sy'n berchen ar gynllun gwynt dau dyrbin 4.7MW ar y Gwrhyd uwchben Pontardawe
- www.egni.coop sy'n berchen ar 179kw o ffotofoltäig solar ar 7 adeilad cymunedol yn Ne Cymru

Pwrpas y Swydd

- Gweithio gydag amrywiaeth o gymunedau a grwpiau cymunedol i glustnodi, datblygu a gweithredu prosiectau ynni adnewyddadwy neu effeithlonrwydd ynni, yn cynnwys cydgysylltu, rheoli prosiectau, a chyflwyno adroddiadau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu Cwmnïau Cydweithredol Awel ac Egni ymhellach.
- Bydd y rôl yn cynnwys datblygu a chyflenwi prosiectau adnewyddion o'r pwynt clustnodi, trwy lofnodi gan y tiffeddiannwr a'r broses gynllunio, hyd at y nod terfynol o gyflenwi prosiectau â chaniatâd, sy'n economaidd ymarferol ac yn adeiladwy, a chyrraedd y pwynt ble byddant yn barod i'w hadeiladu.
- Cynnal astudiaethau dichonoldeb cychwynnol a darparu cyngor ar gynigion ynni cynaliadwy, gan roi ystyriaeth i faterion technegol, rheoliadol, ariannol, datblygu grŵp ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Ymgeisio am gyllid ar gyfer prosiectau ynni a rheoli ymgynghorwyr arbenigol a fyddai'n helpu i symud y prosiect at y camau cynllunio a gweithredu.

Gallai cefndir perthnasol gynnwys ymgynghoriaeth ynni, peirianeg, effeithlonrwydd ynni, y diwydiant ynni adnewyddadwy neu gyflenwi ynni, rheoli prosiectau – yn enwedig yn y sector gymunedol, cynllunio, rheoli ynni.

Yn atebol i:	Rheolwr AAT	
Oriau gweithio:	37.5 awr yr wythnos, oriau swyddfa safonol yn bennaf. Bydd yn ofynnol gweithio gyda'r nos neu ar y penwythnos o bryd i'w gilydd.	
Contract:	Bydd y person(au) yn cael eu cyflogi ar gontract 2 flynedd gan Awel Aman Tawe, gyda'r posibilrwydd o estyniad yn amodol ar gyllid. Croesewir ymgeiswyr a fyddai'n ystyried gweithio'n rhan amser, a byddem yn barod i greu cyfleoedd rhannu swydd gydag ymgeiswyr eraill ble bo'n briodol.	
Gweithle:	Lleoliad y swydd hon fydd Swyddfa AAT yng Nghwmlllynfell Mae gan AAT bolisi gweithio gartref sy'n caniatáu gweithio o gartref fel y bo'n briodol.	
Cyflog:	£27,000 - £34,000 (yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad)	
Gwyliau:	25 diwrnod ynghyd â gwyliau statudol pro rata	
Cyfnod Rhybudd:	1 mis ar y naill ochr a'r llall	
Trafnidiaeth :	Polisi AAT yw ystyried dewisiadau trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer pob taith. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau ar y ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus wledig yn golygu bod rhaid defnyddio car yn y swydd hon.	
Cais:	Anfonwch e-bost a CV at info@awelamantawe.co.uk ynghyd â llythyr eglurhaol yn esbonio pam rydych chi eisiau gweithio mewn ynni cymunedol.	
Dyddiad Cau:	27 Gorffennaf 2018	Cyfweliadau: Dydd Gwener 10 Awst 2018

Y Prif Dasgau a Gweithgareddau Swydd

- Gweithio gyda nifer o sefydliadau cymunedol newydd neu bresennol i glustnodi, datblygu a gweithredu prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yn wardiau gwledig Castell-nedd Port Talbot.
- Darparu rheoli neu gydlynw prosiect i sefydliadau cymunedol newydd neu bresennol, hyd at y cam cyflawni prosiect.
- Cydlynw prosiect drwy gydgyssylltu â phersonél cymunedol allweddol, cydgysylltu ag arianwyr, ymgynghorwyr, partneriaid ac awdurdodau cynllunio. Cyflawni gweithgareddau prosiect allweddol, cadw cofnodion a darparu adroddiadau (ar lafar ac mewn ysgrifen) i randdeiliaid perthnasol.

- Cefnogi grwpiau cymunedol wrth iddynt ymsefydlu fel mentrau cymdeithasol trwy randdeiliaid perthnasol a'u rhaglenni cymorth.
- Darparu cymorth technegol trwy adroddiadau neu gyngor clir a manwl gywir o ran datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy neu effeithlonrwydd ynni.
- Cyfathrebu'n glir â rheolwr prosiect AAT a staff prosiect eraill ar gynnydd a gweithrediad y prosiect.
- Nodi ffynonellau cyllid ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid.
- Cynorthwyo staff a phrosiectau AAT eraill fel y bo angen.
- Disgwyllir i staff AAT wneud eu gwaith gweinyddol/TG eu hun.

Manyleb Person

Gofynion hanfodol:

- Brwdfrydedd dros ynni cymunedol, ac ymrwymiad i amcanion amgylcheddol a lles cymdeithasol
- Arbenigedd a gallu technegol, yn cynnwys y gallu i ysgrifennu adroddiadau clir, cywir a chryno
- Gwybodaeth gyffredinol dda am ystod eang o dechnolegau a materion ynni cynaliadwy, yn cynnwys y seilwaith ynni yn y Deyrnas Unedig
- Y gallu i ddeall a chadw i'r funud o ran materion technegol ac ariannol ac i gynnal deialog gyda rhanddeiliaid perthnasol ar bob lefel
- Dealltwriaeth dda o economeg oes gyfan prosiect llawn, gyda dangosyddion IRR ac NPV. Cynhyrchu a chynnal asesiadau ariannol prosiect-benodol.
- Y gallu i amlwasg, rheoli eu llwyth gwaith yn effeithlon a chyrraedd targedau ar fwy nag un prosiect ar yr un pryd
- Ymagwedd hyblyg, ddynamig a chreadigol
- Gweithiwr tîm, sy'n ymrwymedig i lwyddiant yr holl dîm ac i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai ymgodi
- Trwydded yrru a meddu ar eu car eu hunain

Gofynion dymunol

- Profiad o weithio gyda grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Profiad o weithio mewn, neu o gynorthwyo, awdurdodau statudol lleol neu eraill
- Profiad o reoli cysylltiadau â'r wasg a'r cyfryngau
- Sgiliau cyfryngau cymdeithasol a gwefan